

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Abergynolwyn, Nos Lun 14eg Ionawr 2019

Presennol: Gadeirydd Elwyn Evans, Is Gadeirydd Steve Lewis, H.E. Thompson, Robert Jones,
Dylan Jarman, Cyngorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad Eleri Puw Wendy Whitby (Salwch)

Datgan Diddordeb: dim

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd. Elwyn Evans

1. Derbyniwyd cofnodion Tachwedd a llofnodwyd gan y Cadeirydd Elwyn Evans.
2. Cae Chwarae: Pasiwyd i dalu am drwsio y sleid. Derbyniwyd un pris am dorri gwair, pasiwyd i gadw y toriadau i chwech gwaith y flwyddyn, rhoi contract blwyddyn a gweld sut fydd hyn yn gweithio. Trafodwyd costau yr offer chware, pasiwyd i drafod mis nesa.
3. Mynwentydd: Derbyniwyd un pris am dorri gwair, pasiwyd i gadw toriadau gwair y Llan i chwech gwaith y flwyddyn, y sietyn dwy waith. Mynwent y Fedw, ei thorri unwaith am eleni, chwynladdwr ar y stepiau, a gweld sut fydd yn edrych.
4. Llwybrau: Nodwyd bod pibell newydd yn ei le ar rhiw gwaith.
5. Adroddiad y Trysorydd: Derbyniwyd taflen hyd at 31/12/18. Pawb yn gytun yw derbyn.
6. Praesept: Trafodwyd y daflen ariannol am 2019 – 20, wedi ei baratoi gan y Clerc. Gyda gwariant ychwanegol o'n blaen, codwyd y praesept 3% i £11,077.65, a defnyddio arian wrth gefn i'r Cae Chwarae. Pawb yn gytun.
7. Cyng. Gwynedd: Beth Lawton: Nodwyd gall Cyngor Gwynedd godi ei treth 5.5%. Tynwyd sylw yr holiadur ar lein a chopiau yn y llyfrgell. Gall toriadau dangos effaith ar y gwaith. Diolch Cyng. Lawton.
8. Rheoli Data: Dal i aros am gwrs wrth law.
9. Un Llais Cymru: Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd Elwyn Evans yn nodi bod isio cofnodi archwiliad Cae Chwarae, archwilio y mynwentydd bob tri mis a cofnodi, os oedd digwyddiadau ar dir y Cyngor, rhaid cael ysiwriant ychwanegol gan y defnyddiwr.
10. Biniau Halen.: Adroddodd y Clerc bod bin ail law wedi ei leoli ar Ffordd Ty Mawr Abertrinant a bod y ddau bin ar y ffordd wedi ei lenwi a halen gan Adran Priffyrdd.
11. Archwiliad Allanol: Pasiwyd i dalu. Hefyd trafod yr adroddiad a dderbynwyd.
12. Canolfannau Hamdden: Nodwyd eu bod yn cael eu rhedeg gan gwmni newydd – Byw'n Iach.
13. Coeden Nadolig: Pasiwyd i dalu am goeden i'r Eglwys.
14. Cais Cynllunio: 3, Stryd TanyBryn, Abergynolwyn – tynnu render simdde ac ychwanegu manylion 'gwely' plwm cyn ail adeiladu'r simdde. Pasiwyd i gefnogi'r cais.
15. Adran 137(1) & (3) yn codi i £8.12 y pen.
16. Taliadau:

B A Shellis	cae Chwarae	£144.00	siec 953
Archwiliad Cymru	allanol	353.40	954
Kevin Jones	rhodd	30.00	955

Cartref Mari Jones:

Dim